

TUDALEN 50

Cofnodion y Pwyllgor **Asedau, Adnoddau a Phrosiectau o bell** a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom ar **22 Tachwedd 2021** am 6.30pm.

YN BRESENNOL: - Cynghorwyr: Mair Rowlands (Cadeirydd), Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Enid Parry (ymunodd â'r cyfarfod am 6.53pm), Gareth Roberts, Luke Tugwell (ymunodd â'r cyfarfod am 6.37pm), John Wyn Williams, Eu Teilyngdod y Maer, Owen Hurcum

Swyddogion:- Iwan Williams (Cyfarwyddwr Dinesig), Delyth Davies (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion); Siân Gwenllian AS ar gyfer Eitem Agenda 4.

198/21 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dylan Fernley, Medwyn Hughes, Huw Wyn Jones, Nigel Pickavance.

199/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

200/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

201/21 MATERION YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL: TRAFODAETH GYDA SIAN GWENLLIAN AS

Croesawodd y Cadeirydd Siân Gwenllian AS i'r cyfarfod. Eglurodd Siân Gwenllian ei bod wedi ymateb i'r pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas y Gadeirlan a'r *Wood Fired Shack*. Roedd y bwyty yn poeni am ddelwedd yr ardal a'r ffaith fod eu staff wedi dioddef geiriau sarhaus ac ymddygiad bygythiol.

Dywedodd MS Gwenllian fod cyfarfod wedi'i gynnal gyda sawl asiantaeth arall, e.e. Heddlu Gogledd Cymru a'r gwasanaeth digartrefedd. Roedd Cyngor Gwynedd wedi cymryd yr arweiniad wedyn ac wedi trefnu dau gyfarfod arall. Roedd hi'n falch iawn â'r gwaith amlasiantaeth yma. Roedd y timau allgymorth yn yr asiantaethau wedi dechrau gweithio gydag unigolion heriol. Cyfeiriodd hefyd at broblemau tebyg yn y Rhyl lle mai un ateb oedd, peidio â gyrru'r bobl hyn i ffwrdd ond dod o hyd i fan cysgodol lle y gallent gwrdd. Cynigiwyd cynllun tebyg i Fangor, fodd bynnag, esboniodd fod angen dod o hyd i rywle na fyddai'n creu niwsans i bobl eraill ond a fyddai dal yn ddigon agos at werthfannau alcohol. Nid oedd y broblem mor amlwg ym misoedd oer y gaeaf.

Diolchwyd i Ms Gwenllian am ddod i'r cyfarfod a **PHENDERFYNWYD** cefnog rhoi camau yn eu lle i liniaru'r broblem.

202/21 MEYSYDD CHWARAE YM MANGOR: TRAFODAETH

Roedd yr eitem hon yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod cynt, lle'r oedd y Cyng Elin Walker Jones wedi disgrifio'r gwaith ardderchog a wnaed gan y gymuned leol yn lle chwarae Maes Tryfan. Serch hynny, er gwaetha'r gwaith caled, roedd angen dybryd i uwchraddio'r offer chwarae.

TUDALEN 51

Mynegodd aelodau eraill eu pryder am lefydd chwarae yn eu wardiau nhw. Dywedwyd fod cais wedi mynd i Gyngor Gwynedd ond eu hymateb oedd nad oedd y mater hwn yn flaenoriaeth i'r awdurdod, ac awgrymwyd trosglwyddo cyfrifoldeb i Gyngor y Ddinas. Roedd yr aelodau'n ofni y byddai Cyngor Gwynedd yn amharod i helpu unrhyw ardal arbennig rhag ofn y byddai hynny'n agor y drws i lu o geisiadau eraill.

Ym marn y Cyfarwyddwr Dinesig, roedd gan Gyngor y Ddinas nifer o asedau i edrych ar eu hól yn barod a byddai'n anodd cymryd cyfrifoldeb dros ragor.

Teimlai'r aelodau ei bod hi'n dal yn werth trafod â Chyngor Gwynedd ac y dylid mynd atynt fel un llais, h.y. nid i drafod meysydd chwarae unigol, ond gyda gweledigaeth ar gyfer Bangor gyfan. Pwysleisiodd yr aelodau y dylai llefydd chwarae fod yn rhan o strategaeth llesiant y Cyngor.

Soniwyd hefyd am y syniad o geisio nawdd gan gwmnïau mawr, e.e. archfarchnadoedd.

PENDERFYNWYD sefydlu gweithgor i drafod y mater hwn a gwahodd swyddogion o Wynedd arno. Cyfeiriwyd yn arbennig at Dafydd Einion Jones, gan fod y pwnc hwn yn gorgyffwrdd â'r prosiect adfywio 'Ein Hardal' y mae ef yn arwain arno.

Y Cyfarwyddwr Dinesig i alw cyfarfod o'r gweithgor yn y wythnos neu ddwy nesaf.

203/21 GLANHAU'R STRYDOEDD YM MANGOR: TRAFODAETH

Roedd yr eitem hon yn dilyn ymlaen eto o'r cyfarfod diwethaf, lle'r oedd aelodau wedi mynegi pryder mawr am gyflwr canol y ddinas gyda sbwriel, tyfiant ar lwybrau ayb. Cyfeiriwyd at Grŵp Delwedd Bangor a holwyd a yw'r grŵp hwn yn dal mewn bodolaeth. Mae'n ymddangos fod un cyfarfod wedi'i gynnal ers y pandemig ond fod hwn wedi canolbwyntio ar strwythurau newydd i'r Grŵp. Awgrymwyd y byddai Bangor yn Gyntaf (BID) â diddordeb yn y pwnc hwn hefyd. Roedd cytundeb wedi'i wneud rhwng BID â Chyngor Gwynedd i gael glanhau'r stryd fawr yn drwyadl a gofynnwyd beth oedd wedi digwydd i hwn.

Dywedodd y Cyng Gareth Roberts ei fod wedi trefnu cyfarfod gyda Phrif Weithredwr newydd Cyngor Gwynedd ddiwedd y mis ac y byddai croeso i aelodau eraill ymuno. Y syniad oedd tywys y Prif Weithredwr o amgylch y stryd fawr ac yna cael sgwrs anffurfiol.

PENDERFYNWYD anfon manylion i'r aelodau am y cyfarfod anffurfiol. Hefyd i bwysu am gael y glanhau trylwyr.

204/21 ASED AU'R CYNGOR: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Roedd adroddiad manwl wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod. Pwyntiau ychwanegol:

- Roedd coedydd Penrhyn Arms yn cael eu gwerthu am bris enwol o £1. Holodd yr aelodau a oedd unrhyw berygl y byddai'r ardal yn cael ei defnyddio i ddatblygu arni mewn unrhyw ffordd. Atebodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod syrfëwr meintiol wedi archwilio'r safle ac wedi dweud na fyddai modd datblygu anheddau arno oherwydd y topograffi.
- Diolch i Ffrindiau Pier Garth Bangor, mae'r gwaith yn mynd o nerth i nerth. Mae gweithgor y Pier yn cyfarfod yn fisol. Cynigiwyd fod swyddog o'r Cyngor yn mynychu'r grŵp hwn, wedi ymadawiad y Cyfarwyddwr Dinesig. Dywedodd y Cyng Enid Parry fod llawer o lwyddiant y Pier yn ganlyniad i waith caled gan wirfoddolwyr, y diwrnod hwnnw

TUDALEN 52

roedd grŵp o wirfoddolwyr y Ffrindiau wedi helpu gyda'r gosodiadau golau ar y Pier drwy'r dydd.

Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig yn cytuno a dywedodd fod dau weithiwr awyr agored y Cyngor eisoes yn gweithio'n galed iawn, yn gorfod ymateb i bob math o broblemau a heriau

- Trafodwyd yr ardal ar ben uchaf Ffordd Farrar a gofynnwyd a oedd yr Eglwys yno wedi cael caniatâd i osod grisiau newydd, gan mai tir Cyngor y Ddinas yw hwn. Soniwyd hefyd fod eu harwyddion a'u baneri yn mynd i edrych yn flêr. Pan osodir y goeden Nadolig yno, dylid sicrhau fod pobl yn gwybod mai'r Cyngor a'i rhoddodd yno.

Y Cyfarwyddwr Dinesig i wneud ymholiadau am y darn hwn o dir.

Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Dinesig am ei adroddiad cynhwysfawr.

204/21 GOSOD GOLEUADAU NADOLIG: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod trafodaethau maith wedi cael eu cynnal dros sawl mis rhyngddo ef a'r Maer a Bangor yn Gyntaf am y goleuadau Nadolig. Cytunwyd y byddai'r goleuadau'n ymestyn i Fangor Uchaf eleni. Byddai Cyngor y Ddinas yn talu hanner y gost a Bangor yn Gyntaf yn cyfrannu'r hanner arall. Gallai gweithwyr y Cyngor osod y goleuadau ar y stryd fawr a byddai contractwr allanol yn gosod y gweddill. Fodd bynnag, roedd Bangor yn Gyntaf wedi tynnu'n ôl o'r prosiect hwn ar y funud olaf. Mynegodd yr aelodau eu siom a'u syndod eu bod wedi tynnu'n ôl mor hwyr yn y dydd.

PENDERFYNWYD dod â'r mater hwn i sylw'r Cyngor llawn, ac yn y cyfamser, i'r Maer ysgrifennu at Bangor yn Gyntaf i fynegi siom y Pwyllgor, ac i ofyn iddyn nhw dalu hanner y costau, fel y cytunwyd o'r dechrau.

205/21 CAIS GRANT CREU LLEOLIADAU LLYWODRAETH CYMRU: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi dosbarthu papur cyn y cyfarfod oedd yn dangos y datblygiadau diweddaraf ar y cais hwn. Roedd y gwaith yn mynd rhagddo ar amrywiol bynciau gyda Swyddog Prosiect y Cyngor yn gweithredu fel Rheolwr Prosiect. Disgwylir i'r gwaith ei hun ddechrau yn y Flwyddyn Newydd.

206/21 ANFONEBAU I'W TALU A MATERION ARIANNOL Y CYNGOR

Cymeradwyodd yr aelodau dalu anfonebau fel y manylwyd arnynt ar y rhestr, i gyfanswm o £25,468.98.

207/21 EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

Gan y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal wedi i'r Cyfarwyddwr Dinesig adael, gofynnwyd a allai Swyddog Prosiectau'r Cyngor fynychu'r cyfarfod nesaf. Gallai ddiweddarau'r aelodau am y cynlluniau a'r prosiectau y mae Cyngor y Ddinas yn rhan ohonynt (e.e. y Cais am Grant uchod)

Daeth y cyfarfod i ben am 8.32pm

CITY DIRECTOR– Iwan Williams – CYFARWYDDWR DINESIG